
# Rhaglen Gwirfoddolwyr

Ebrill i Medi 2010

## Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych



# Croeso

Mae ystod eang iawn o gyfleoedd i chwarae rhan yng ngwaith Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych – ac rydym angen eich help chi! Mae prosiectau ar y gweill ledled y Sir. Gallwch ymuno â ni nawr ac yn y man neu bob wythnos – eich dewis chi.

Mae'r tasgau'n amrywio o blannu coed i adeiladu muriau cerrig sychion i greu cynefinoedd bywyd gwyllt. Nid oes angen profiad – darperir hyfforddiant ac rydych yn rhydd i weithio ar eich cyflymder eich hunan.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â David Shiel, Parc Gwledig Loggerheads
01352 810614.

## Am fersiwn braille, bras neu fersiwn tâp o'r wybodaeth yma ffoniwch am ddim ar 0800 243980

**Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd**

## Yn eich ardal chi cysylltwch â:

Parc Gwledig Loggerheads – 01352 810614

Gogledd Sir Ddinbych (Y Rhyl) – 01745 356197

De Sir Ddinbych (Llangollen) – 01978 869618

**Gair am Iechyd a Diogelwch**

Bydd y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn darparu'r holl ddillad diogelwch sydd eu hangen arnoch. Cofiwch wisgo esgidiau cadarn gyda grip da a dewch â dillad dal dŵr a phecyn cinio gyda chi. Sicrhewch os gwelwch yn dda, os oes unrhyw un dan 14 oed, bod rhiant neu warcheidwad gyda hwy. Yn anffodus ni fedrwn weithio gyda phlant iau nag 8 oed.

www.clwydianrangeaonb.org.uk
www.sirddinbych.gov.uk/cefngwlad
www.ygrugargaerau.co.uk

Dathlu Celebrating 25 AHNE Bryniau Clwyd Clwydian Range AONB

Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales

Cyngor Sir Ddinbych Denbighshire County Council

Printiwyd ar inciau llysieuol ar bapur sydd wedi'i ddefnyddio'n barod, wedi'i ailgylchu a heb ei gannu.



# Ebrill



**Dydd Gwener 9 10am-12pm**
**Codi ffens o goed Cyllid**
Helpu codi ffens draddodiadol i newid mynedfa Coedlan gymunedol Glan Morfa. Fe'i gwneir o goed cyll a gasglwyd adeg gwaith rheolaeth ein safleoedd Cefn Gwlad. Cyfarfod maes parcio Glan Morfa, Marsh Road, y Rhyl.

**Dydd Mercher 14 a dydd Iau 15 10am**
**Codi wal gerrig**
Codi rhan olaf y wal o amgylch tu blaen hen fwthyn y bugail. Dysgu neu wella eich sgiliau hefo hyfforddiant profedig. Cyfarfod Coed Nercwys, maes parcio gogleddol (SJ 218 593)

**Dydd Mercher 21 a dydd Iau 22 10am**
**Atgyweirio llwybrau**
Mae angen cymorth i gryfhau rhan o lwybr ger yr hen reilffordd i Gorwen. Cyfarfod ger maes parcio Canolfan Hamdden Corwen (SJ 082 441)

**Dydd Llun 26 a dydd Mawrth 27 10am**
**Clirio rwbel**
Dowch i helpu clirio rwbel i ganfod olion hen fwthyn y bugail yng nghanol y coed. Cyfarfod Coed Nercwys, maes parcio gogleddol (SJ 218 593)

**Dydd Mercher 28 10am**
**Atgyweirio grisiau**
Dowch i helpu atgyweirio grisiau o fewn y parc. Cyfarfod Loggerheads.

**Dydd Mercher 28 10am**
**Rhoi cartref i'r genau goeg yn y tywod**
Dowch am y bore i dwyni Gronant i greu lleiniau tywod clir er mwyn ailgyflwyno genau goeg y tywod yma i ddodwy wyau. Cyfarfod maes parcio isaf Barkby Beach.



# Mai

**Dydd Mercher 5 a dydd Iau 6 10am-2.30pm**
**Ffensio Gronant**
Codi ffensys blynyddol fel rhan o gynllun gwarchod y for-wennol fach ar dwyni Gronant 2010. Helpwch ni roi tua 4km o ffens drydan o amgylch y lle. Cyfarfod mynedfa twyni Gronant (ger Presthaven Sands Holiday Park).

**Dydd Iau 13 10am**
**Glanhau yn ardal Moel Famau**
Helpu i baratoi'r parc at dymor prysur yr haf. Clirio draeniau ar Lwybr Clawdd Offa. Cyfarfod maes parcio Bwlch Penbarras (maes parcio uchaf)

**Dydd Mawrth 18 10am.**
**Atgyweirio llwybr I**
Cyfle i wella llwybrau o fewn y parc. Cyfarfod Loggerheads.

**Dydd Mercher 19, Dydd Iau 20 a dydd Gwener 21 10am**
**Camu nôl mewn amser**
Allan a'r hen a mewn a'r newydd!. Helpu adnewyddu grisiau ar Caer Drewyn. Cyfarfod maes parcio Canolfan Hamdden Corwen (SJ 082 441)

**Dydd Mawrth 25 10am**
**Atgyweirio llwybr II**
Cynnal llwybrau o fewn y parc. Cyfarfod Loggerheads.

**Dydd Iau 27 a dydd Gwener 28 10am**
**Clirio rwbel.**
Mae angen cymorth i glirio rwbel ger hen fwthyn y bugail. Cyfarfod Coed Nercwys, maes parcio gogleddol (SJ 218 593)

# Mehefin

**Dydd Mercher 2 10am**
**Clirio Balsam**
Helpwch ni glirio'r planhigyn estron hwn sy'n tyfu'n bla. Dewch i helpu clirio Himalayan Balsam o lannau'r afon Ddyfrdwy. Cewch daten yn ei chroen a ffa pob fel tâl am eich llafur (sydd mewn lleoliad hyfryd). Cyfarfod maes parcio pafiliwn chwaraeon Corwen (SJ 079 436).

**Dydd Mawrth 8 10am**
**Clirio tyfiant**
Dowch i helpu clirio tyfiant oddi ar diroedd pori pwysig. Cyfarfod Loggerheads.

**Dydd Mercher 9 10am**
**Helpu yn nyffryn y Ddyfrdwy**
Dowch i helpu gwella mynediad ar hyd llwybrau dyfyn Dyfrdwy. Cyfarfod maes parcio Market Street, Llangollen.

**Dydd Mercher 9 6pm-10pm**
**Clirio Balsam a chinio**
Dowch i'n helpu i ddechrau clirio Himalayan balsam oddi ar yr afon Alun. Ar ôl eich gwaith caled cewch ginio wedyn. Yn ardal Yr Wyddgrug . Cewch wybod ble adeg trefnu lle. Rhaid trefnu lle ymlaen llaw. Ffoniwch 01352 810614.

**Dydd Mawrth 15 a dydd Mercher 16 10am- 3pm Codi ffiniau**
Helpwch ni godi wal ffiniau ganrifoedd o oed o amgylch ardal natur Moel Findeg. Cyfarfod ochr orllewinol (SJ 204 611)

**Dydd Mercher 16 10am**
**Mwy o Balsam. Mwy o falu!**
Cyfle arall i fwyta taten bob a ffa pob. Cyfle i falu mwy o falsam ar lan yr afon Ddyfrdwy. Dowch a rhywbeth i'w goginio ar y tân. Cyfarfod maes parcio pafiliwn chwaraeon Corwen (SJ 079 436)

**Dydd Mawrth 22 a Dydd Mercher 23 10am**
**Waliau sych**
Dowch i atgyweirio rhannau o wal ffiniol Moel Arthur. Cyfarfod maes parcio Moel Arthur (GR SJ 147658).

ygruga'rcaerau heatherandhillforts

**Dydd Mawrth 29 10am**
**Clirio Rhedyn**
Helpwch symud rhedyn clos o ardaloedd fel y gall planhigion eraill dyfu yno. Cyfarfod Loggerheads.

**Dydd Mawrth 29 a dydd Mercher 30 10am-2pm**
**Coedlannau**
Dowch i weld sut mae'r goedlan wedi tynnu ers plannu 6,000 o goed yn ystod Gaeaf 2006/07. Mae angen torri rhai coed trwy dorri'r canghennau isaf. Creu mangre i fywyd gwyllt ffynnu yn yr ardal. Cyfarfod maes parcio Coed y Morfa, Prestatyn (i lawr Tip Lane)

**Dydd Mercher 30 9:30am neu 10am.**
**Gwella mangre i fywyd gwyllt**
Yn dilyn chwistrellu rhedyn yn 2009, dowch i greu plotiau rheolaeth ar Moel y Parc trwy glirio rhedyn marw i agor y tir i blanhigion mynydd-dir. Cyfarfod Loggerheads 9.30am neu ganolfan grefftau Afonwen (GR SJ 131714) am 10am.

ygruga'rcaerau heatherandhillforts



# Gorffennaf



**Dydd Iau 1 a dydd Gwener 2 10am**
**Bwthyn y bugail**
Helpwch ni wneud gwaith ar fwthyn y bugail. Cyfarfod Coed Nercwys, maes parcio gogleddol (SJ 218 593).

**Dydd Mercher 7 a dydd Iau 8 10am - 2pm**
**Gwelliannau Haf**
Mae llecyn natur Rhuddlan wedi cael llawer o ddatblygiad positif yn ddiweddar. Dowch i helpu tacluso'r safle cyn gŵyl gerdded Rhuddlan y penwythnos yma (9 - 11 Gorffennaf 2010). Cyfarfod Morfa Rhuddlan.

**Dydd Mawrth 13 10am Tacluso!**
Helpwch y warden baratoi'r parc erbyn y gwyliau haf. Cyfarfod Loggerheads.

**Dydd Mercher 14 10am**
**Helpu yn ardal y Ddyfrdwy II**
Cyfle i helpu gwella mynediad ar hyd llwybrau cyhoeddus dyffryn y Ddyfrdwy. Cyfarfod maes parcio Market Street, Llangollen.

**Dydd Mawrth 20, dydd Mercher 21 a Dydd Iau 22 10am**
**Codi waliau**
Dowch i ddysgu crefftau traddodiadol. Rhoddir hyfforddiant llawn i chi ar godi waliau. Dowch i olygfeydd gwych y fryngaer. Cyfarfod maes parcio Canolfan Hamdden Corwen (SJ 082 441).

**Dydd Mawrth 27 10am - 3pm**
**Adfer craith**
Gwisgwch eich sgidiau a dowch i weithio ar gynhaliaeth llwybrau yn ardal Cilcain. Cyfarfod gorsaf bwmpio Cilcain (SJ 172 647).



# Awst

**Dydd Llun 9, dydd Mawrth 10 a dydd Mercher 11 10am**
**Codi Waliau Cerrig ar Foel Famau**
Helpwch ni godi wal ffiniau Moel Famau. Dowch i wella eich sgiliau neu i ddysgu o'r newydd hefo hyfforddwr profiadol. Cyfarfod maes parcio bwlch Pen Barras (maes parcio uchaf).

**Dydd Mercher 11 a dydd Iau 12 10am-2.30pm**
**Clirio Coedlan**
Helpwch ni ddechrau ac ein cylch o dorri coed onnen yng ngwarchodfa Natur Brickfields Pond. Byddwn yn defnyddio'r pren i greu gwrych marw ar hyd llwybr cylch o amgylch y 'Brickie'. Cyfarfod maes parcio pwll Brickfields.

**Dydd Iau 26 10am**
**Creigiau Eglwyseg.**
Does fawr unrhyw le mwy rhyfeddol na fan hyn yn yr holl Sir!! Dowch i helpu codi rhannau o Lwybr Clawdd Offa wrth iddo groesi'r creigiau. Cyfarfod maes parcio Stryd y Farchnad, Llangollen.

# Medi

**Dydd Mercher 8 10am**
**Sleepers in Seattle**
Dowch i helpu clirio Llwybr Clawdd Offa wrth iddo groesi'r ffriddoedd yn Llandegla. Cyfarfod maes parcio, Worlds End (SJ 232 484)

**Dydd Mercher 8 a dydd Iau 9 10am**
**Gwella Llwybr Clawdd Offa**
Mae miloedd o draed yn cerdded dros y rhan hwn o Lwybr Clawdd Offa bob blwyddyn felly mae angen gwelliannau blynyddol. Cyfarfod maes parcio Bwlch Pen Barras (maes parcio uchaf).

**Dydd Mawrth 14 a dydd Mercher 15 10am-3pm Codi ffiniau**
Helpwch ni ail godi waliau sy'n gannoedd o flynyddoedd o oed o amgylch cadwraeth natur leol Moel Findeg. Cyfarfod ochr orllewinol ger Tŷ Newydd, Maeshafn (GR SJ 204 611).

**Dydd Mercher 15 10am**
**Helpu yn nyffryn y Ddyfrdwy III**
Dowch i helpu gwella mynediad ar hyd dyffryn y Ddyfrdwy. Cyfarfod maes parcio Stryd y Farchnad, Llangollen.

**Dydd Mawrth 21 10am**
**Clirio tyfiant**
Dowch i helpu clirio tyfiant o dir glaswellt sydd o bwys rhyngwladol. Cyfarfod Loggerheads.

**Dydd Mercher 22 9:30am neu 10am**
**Creu ffriddoedd.**
Helpu adfer ardal mynyddoedd Llantysilio a ddifrodwyd gan gerbydau pedair olwyn. Cyfarfod - Loggerheas am 9.30am neu ar Fwlch y Groes (GR SJ 150448) am 10am.

ygrug a'r caerau
heather and hillforts

**Dydd Iau 23 a dydd Gwener 24 10am-1pm**
**Hibernacula**
Paratoi cartref at y gaeaf. Fe'i gwneir o gerrig a choed a defnyddir yr hibernacula gan famaliaid ac amffibiaid. Cyfarfod mynedfa Mount Wood, Dinbych.

**Dydd Mawrth 28 10am**
**Rheoliadau coedlannau**
Helpu dileu coed an-frodorol o fewn y parc. Cyfarfod Loggerheads.

